

Dyfeisiau diwifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 3 November 2020

Cyfeirnod: RS20/14079-1

Deiseb P-05-1030 Mesurau i atal dyfeisiau diwifr rhag cael eu defnyddio mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i osod cyfyngiadau llymach ar ddefnyddio dyfeisiau diwifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Rhaid i rieni / gofalwyr gael gwybod am y peryglon iechyd sydd wedi'u darganfod.

Rhaid sicrhau caniatâd rhieni / gofalwyr ymlaen llaw cyn gosod / defnyddio dyfeisiau WiFi.

Rhaid i'r canlyniadau canrannol fod yn glir i'r holl rieni / gofalwyr a'r rheini sydd â dyletswydd gofal.



1. Crynodeb

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am seilwaith TG mewn ysgolion a gynhelir. Mae Llywodraeth Cymru wedi [cyhoeddi canllawiau](#) ar:

- Safonau Digidol Addysg
- Addysg Canllawiau Digidol i Ysgolion; a
- Rheoli Dyfeisiau

Mae'r Safonau Digidol Addysg yn cynnwys [Safonau Rhwydwaith Di-wifr](#), ac mae'r rhain yn nodi:

Dylai pob ysgol sicrhau ei bod wedi ystyried sut a pham y mae am ddefnyddio rhwydweithio di-wifr yn eu hysgol. Ewch i [wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) i gael y cyngor diweddaraf ar ystyriaethau iechyd posibl.

Mae [canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn cynnwys 'crynodeb o'r dystiolaeth o risgiau i iechyd'. Mae'n nodi bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael cyngor gan Public Health England ar faterion sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd.

Mae crynodeb Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r dystiolaeth o risgiau i iechyd yn nodi: **'...nid oes unrhyw reswm pam na ddylai Wi-Fi gael ei ddefnyddio mewn ysgolion ac mewn mannau cyhoeddus eraill.'** Mae'r testun llawn fel a ganlyn:

Mae ymchwil wedi cael ei gynnal gan yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i Ganser (IARC) i edrych ar effaith tonnau radio ar iechyd. Dywedwyd bod tonnau radio yn 'garsinogenig o bosib' (achos posib o ganser). Nid yw hyn yn golygu bod cyswllt uniongyrchol rhwng tonnau radio o ffonau symudol a chanser; yn hytrach, bod y dystiolaeth o astudiaethau a edrychodd ar a oes modd i donnau radio achosi canser mewn pobl yn cael ei hystyried yn gyfyngedig. Roedd y dystiolaeth o astudiaethau arbrolfol yn cynnwys anifeiliaid a gafodd gyswllt yn cael ei hystyried yn gyfyngedig hefyd. Ymhlith yr esiamplau eraill o gemegau neu sylweddau sy'n cael eu hystyried yn garsinogenig o bosib mae bwyta llysiau wedi'u piclo (o fath Asiaidd) neu ddefnyddio powdwr corff ar ffurf talc.

Weithiau mae pobl yn bryderus am gyswllt ac effeithiau, ond asesir cyswllt â thonau radio a'r risgiau yn erbyn safonau iechyd cytunedig sydd wedi cael eu pennu er mwyn gwarchod iechyd unigolion a'r

boblogaeth. Yn ôl Public Health England, cyngorwyr arbenigol y DU ar ymbelydredd, mae cyswllt y cyhoedd â thonnau radio o orsafoedd sylfaen telegyfathrebu symudol technoleg 2G, 3G a 4G yn ddiogel oddi mewn i'r canllawiau sydd wedi'u pennu gan y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP). Mae'r canllawiau hyn yn cael eu derbyn a'u defnyddio yn rhyngwladol mewn sawl gwlad, gan gynnwys y DU. Gall yr ehangu diweddar ar dechnoleg 5G ledled y DU arwain o bosib at gynnydd mewn cyswllt cyffredinol â thonnau radio. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r cyswllt fod yn fwy na'r canllawiau iechyd.

Yn yr un modd, nid oes disgwyl i dechnoleg Wi-Fi – fel y defnyddir mewn rhwydweithiau ardal lleol di-wifr lle mae dyfeisiau a chyfrifiaduron yn cyfathrebu drwy donnau radio yn lle ceblau'n cysylltu – gael effaith negyddol ar iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r signalau'n bŵer isel iawn mewn cyfrifiaduron a llwybrwyr rhwydweithiau Wi-Fi ac mae'r lefelau cyswllt yn is na'r rhai o ffonau symudol sy'n cael eu dal wrth y pen yn ystod galwadau. Mae ymchwil yn dangos y bydd cyswllt unigolyn â thonnau radio o Wi-Fi yn ddiogel oddi mewn i'r canllawiau ICNIRP a dderbynnir yn rhyngwladol. O'r herwydd, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai Wi-Fi gael ei ddefnyddio mewn ysgolion ac mewn mannau cyhoeddus eraill.

2. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i gais am wybodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau. Mae'r llythyr yn cynnwys y pwyntiau a ganlyn:

- 'Ar sail sawl astudiaeth a gyhoeddwyd a'r rhai a gynhaliwyd yn fewnol, mae PHE wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw gamau arbennig i leihau cyswllt plant â lefelau isel tonfeddi radio oddi wrth rwydweithiau Wi-Fi, nac unrhyw reswm ar hyn o bryd pam na ddylai Wi-Fi barhau i gael ei ddefnyddio mewn ysgolion a mannau eraill.'
- 'Cynhaliodd PHE raglen ymchwil systematig i rwydweithiau di-wifr a'u defnydd mewn ysgolion, gan gynnwys mesur peryglon rhwydweithiau. Mae canlyniadau'r ymchwil yn cefnogi safbwynt PHE fod peryglon Wi-Fi

yn isel mewn perthynas â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio (ICNIRP) a phan maent yn cael eu cymharu â pheryglon tebyg ffonau symudol.'

3. Safbwyntiau eraill

Mae sawl corff wedi rhoi sylw i'r mater hwn ac wedi gwneud gwaith craffu arno, gan gynnwys Cyngor Ewrop (2011). Yn 2015, cyflwynodd Cynulliad Cenedlaethol Ffrainc ddarn o ddeddfwriaeth i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â meysydd electromagnetig ymbelydredd diwifr, gan gynnwys mewn ysgolion a meithrinfeydd. Roedd yn seiliedig ar ddull rhagofalus o fynd i'r afael â'r risgiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig ag amledd radio.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.